**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS

Cadeirydd

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

Huw.Irranca-Davies@senedd.cymru

23 Mawrth 2023

Annwyl Huw,

Yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol, rwy'n ysgrifennu i roi gwybod ichi fy mod wedi bod mewn cyfarfod o'r Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer yr Amgylchedd, Bwyd a Ffeiriau Gwledig a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2023.

Fi gadeiriodd y cyfarfod, a hefyd yn bresennol yr oedd: Mairi Gougeon ASP,

Ysgrifennydd y Cabinet dros Faterion Gwledig a’r Ynysoedd, Llywodraeth yr Alban; Lorna Slater MSP, Gweinidog Sgiliau Gwyrdd, yr Economi Gylchol, a Bioamrywiaeth yn Llywodraeth yr Alban; Rebecca Pow AS, Gweinidog Ansawdd a Chadernid yr Amgylchedd, Mark Spencer AS, y Gweinidog Bwyd, Ffermio a Physgodfeydd, James Davies AS, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru, John Lamont AS, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol i Swyddfa'r Alban, Steve Baker AS, Gweinidog Gwladol Llywodraeth y DU yn Swyddfa Gogledd Iwerddon; a Katrina Godfrey, Ysgrifennydd Parhaol, DAERA yn absenoldeb gweinidogion Gogledd Iwerddon.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Agorodd y cyfarfod gyda thrafodaeth am Fil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (REUL) sydd, ar hyn o bryd, yn mynd drwy'r Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi. Rhoddodd pob un o'r Llywodraethau'r wybodaeth diweddaraf am sut y maent yn mynd ati i nodi ac i gategoreiddio'r Bil, gan ganmol y ffordd gadarnhaol y mae'r gweinyddiaethau wedi ymwneud â'i gilydd yn hynny o beth. Buom hefyd yn trafod y rhaglenni deddfwriaethol

seneddol sydd eu hangen er mwyn dargadw, diddymu neu ddiwygio eitemau unigol o ddeddfwriaeth. Wedyn, rhoddodd Llywodraeth yr Alban yr wybodaeth ddiweddaraf am hynt eu Cynlluniau Dychwelyd Ernes, a chynhaliwyd trafodaeth am gais Llywodraeth yr Alban i gael ei heithrio o Ddeddf Marchnad Fewnol y DU.

Wedyn, cyfeiriais at y sefyllfa sydd ohoni o ran prinder bwyd a diogelwch bwyd, gan dynnu sylw at yr angen i gydweithio ar y mater hwn, sy'n effeithio ar bob rhan o'r DU. Buom yn trafod yr effeithiau cronnol mae materion fel y rhyfel yn Wcráin a phrinder llafur yn parhau i'w cael, a sut y mae'r newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar y cyflenwad bwyd.

Cytunwyd i drafod mwy ar yr eitem hon yn y Cyfarfod Rhynglywodraethol ym mis Ebrill.

Yn olaf, cyfeiriodd Llywodraeth yr Alban a minnau at y ffaith bod diffyg cynnydd ar wahanol ddarnau o ddeddfwriaeth ar les anifeiliaid, gan wneud cais am ddiweddariad ysgrifenedig.

Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ddydd Llun 17 Ebrill.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Bydd hysbysiad am y cyfarfod hwn yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth y DU: https://www.gov.uk/government/publications/communique-from-the-inter-ministerial-group-for-environment-food-and-rural-affairs.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd, a Seilwaith ac at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Cofion,



**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.